Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

**Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 6/2016**

**Dyddiad Cyhoeddi: 28/01/2016**

# Gwerthusiad o Raglen Esgyn

## Cam 1: Rhesymeg Model Esgyn

**Gwerthusiad o Raglen Esgyn - Cam 1: Rhesymeg Model Esgyn**

Wavehill

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Semele Mylona
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Semele.Mylona@wales.gsi.gov.uk

ISBN: 978-1-4734-5577-1
© Hawlfraint y Goron 2016

Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio pan nodir yn wahanol

http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

## Tabl cynnwys

Rhestr ffigyrau....................2
Geirfa....................3
1. Cyflwyniad....................4
2. Dull Methodolegol: Cam 1....................7
3. Theori Newid a Model Rhesymeg....................9
4. Sail Resymegol Model Esgyn....................11
5. Cynllun Rhaglen Esgyn....................22
6. Rhoi'r Rhaglen ar Waith....................33
7. Crynodeb o'r Canfyddiadau....................40
Cyfeiriadau....................44

## Rhestr ffigyrau


Ffigwr 1: Model Rhesymeg Rhaglen Esgyn ..................................................10

Ffigwr 2: Canran yr aelwydydd heb waith yn ôl ardal Awdurdod Lleol............13

Ffigwr 3: Y model gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer Rhaglen Esgyn ............25

Ffigwr 4: Nifer rhagamcanol y cyfleoedd i'w mynychu gan gyfranogwyr yn erbyn nifer y cyfleoedd a fynychwyd sydd wedi'u cofnodi................37

Ffigwr 5: Cyfanswm nifer y cyfleoedd y manteiswyd arnynt hyd yn hyn yn ôl ardal (Awst 2015).........................................................................38

## Geirfa

Rhaglen Esgyn = *Lift Programme*

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| CyG | Cymunedau yn Gyntaf |
| DWP | Adran Gwaith a Phensiynau |
| ESA | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| ESICC | Gwasanaethau Cyflogaeth mewn Canolfannau Plant Integredig |
| IB | Budd-dal Analluogrwydd |
| JCP | Canolfan Byd Gwaith |
| JGW | Twf Swyddi Cymru |
| JSA | Lwfans Ceisio Gwaith |
| LDB | Corff Cyflawni Arweiniol |
| LSOA | Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is |
| LIC | Llywodraeth Cymru |
| MALIC | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |
| ONS | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| TPAP | Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi |

## 1. Cyflwyniad

### 1.1 Cefndir

Ym mis Mawrth 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Wavehill i gynnal gwerthusiad o Raglen Esgyn. Mae Rhaglen Esgyn wedi'i chynllunio i ymateb i Gynllun Gweithredu 2013 Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi; sef, yn fwy penodol, ymrwymiad i gynnig 5,000 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth erbyn diwedd 2017 i bobl sy'n byw ar aelwydydd heb waith yn yr hirdymor.[1] Rhagwelir y bydd y gefnogaeth yn helpu cyfranogwyr i gael swydd neu i gynyddu yn fawr eu rhagolygon o ddod o hyd i swydd.

Cynigir y Rhaglen mewn naw ardal, yn seiliedig ar 12 clwstwr[2] Cymunedau yn Gyntaf (CyG) ledled Cymru. Er bod y rhan fwyaf o ardaloedd lle cynigir Rhaglen Esgyn yn seiliedig ar un Clwstwr, mae tair ardal yn y Rhaglen – sef Blaenau Gwent, Caerffili a Sir y Fflint[3] – yn cynnwys dau Glwstwr yr un, ac felly ceir cyfanswm o 12 Clwstwr yn Rhaglen Esgyn.

Ym mhob ardal yn y Rhaglen mae timau bach o froceriaid swyddi (dau fel rheol ym mhob ardal) wedi'u recriwtio i gynorthwyo oedolion o oedran gweithio sy'n byw ar aelwydydd heb waith yn hirdymor (sef cartrefi sydd wedi bod allan o waith ers o leiaf chwe mis). Mae cyfranogwyr cymwys yn ymuno â'r rhaglen yn wirfoddol, gyda'r broceriaid yn asesu eu dyheadau i gael swydd, hyfforddiant neu addysg ac yn eu cynorthwyo i lunio cynlluniau (gweithredu) datblygu personol er mwyn rhoi strwythur iddynt gyrraedd cyflogaeth. Mae'r broceriaid yn canfod cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth sy'n addas i'r cyfranogwyr.

Mae'r broceriaid yn chwilio am gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth yn lleol. Ar lefel genedlaethol mae adrannau Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus ac eraill wedi'u gwahodd i ehangu eu cronfa o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a all fod yn addas yn lleol i bobl heb waith yn y tymor hir. Mae'r

[1] Aelwyd heb waith yw pan nad oes unrhyw aelod o'r aelwyd mewn cyflogaeth, h.y. mae'r holl aelodau un ai yn ddi-waith neu'n anweithgar, gan gynnwys hyfforddiant neu addysg llawn amser. Mae hyn yn cynnwys pob aelod o'r cartref, waeth beth fo'u hoedran. Felly, byddai cyfranogwr di-waith ifanc sy'n byw gyda nain a thaid wedi ymddeol yn cael ei ystyried i fod yn byw mewn cartref heb waith.

[2] Mae 52 Clwstwr sy'n gweithredu yn y cymunedau mwyaf difreintiedig (10%) yng Nghymru.

[3] Ymunodd Sir y Fflint ac un o ardaloedd Caerffili â Rhaglen Esgyn yn ddiweddarach.

rhain yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a chyfleoedd mewn Rhaglenni Sgiliau ac Addysg sy'n bodoli eisoes.

Roedd yr ardal gyntaf i weithredu Rhaglen Esgyn wedi dechrau ar ei gwaith ym mis Ionawr 2014. Lansiwyd y Rhaglen yn ffurfiol ym mis Mawrth 2014, a dechreuodd yr olaf o'r naw ardal weithredu yn Haf 2014. Yn ddiweddar cytunodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar gyllideb i'r Rhaglen ar gyfer 2016-17 a 2017-18 er mwyn galluogi'r Rhaglen i barhau hyd at fis Mawrth 2018.

## 1.2 Cwmpas ac amcanion y gwerthusiad

Dyma ddau amcan cyffredinol y gwerthusiad:

- Asesu sut y mae'r Rhaglen wedi cael ei sefydlu ym mhob un o'r naw ardal a sut y mae'n cael ei gweithredu yno; a
- Rhoi syniad o'i heffeithiolrwydd wrth helpu cyfranogwyr i ddod o hyd i waith neu i wneud gweithgareddau sy'n rhoi hwb sylweddol i'w rhagolygon swydd.

Cynhelir y gwerthusiad mewn tri cham (hwn yw'r cam cyntaf) a phob cam yn annibynnol ar ei gilydd gan fod â ffocws penodol ar elfennau allweddol y Rhaglen.

### *Cam 1 – Rhesymeg Model Esgyn*

Ffocws y cam cyntaf hwn yn y gwerthusiad yw canolbwyntio ar ddeall y model rhesymeg sydd wrth wraidd rhaglen Esgyn, hynny yw, profi i ba raddau y mae Esgyn yn seiliedig ar 'theori newid' credadwy ac i ba raddau y mae'n cydymffurfio â'r model hwn yn yr ardaloedd sy'n gweithredu'r Rhaglen.

### *Cam 2 – Strwythur ac arferion gweithredu Esgyn*

Bydd Cam 2 yr astudiaeth yn cynnwys dadansoddiad manwl o sut y mae'r Rhaglen wedi cael ei sefydlu ym mhob ardal a'r prosesau a ddefnyddir wrth ei gweithredu. Bydd hefyd yn archwilio pa mor ddigonol yw'r systemau monitro ac adrodd ym mhob ardal y cyflenwir y Rhaglen ynddi.

*Cam 3 – Effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd Esgyn*

Bydd Cam 3 yn tynnu ar ganfyddiadau'r camau blaenorol ynghyd â ffocws ar asesu:

- Effeithiolrwydd y Rhaglen wrth gyflawni ei deilliannau bwriadedig (i gynnwys dadansoddi'r costau a'r buddion i gyfranogwyr y Rhaglen).
- Effeithlonrwydd ymarferol y Rhaglen ac a oes lle i wella cynllun y Rhaglen.

## 1.3 Strwythur yr adroddiad hwn

Mae trefn gweddill yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn rhoi trosolwg o'r dulliau a ddefnyddiwyd yng ngham hwn y gwerthusiad.
- Mae Pennod 3 yn cyflwyno'r Theori Newid a'r Model Rhesymeg sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen.
- Mae Pennod 4 yn edrych ar sail resymegol y Rhaglen.
- Ym Mhennod 5 trafodir cynllun y Rhaglen gan ystyried y gweithgareddau, allbynnau a deilliannau disgwyliedig sy'n gysylltiedig â hi.
- Mae Pennod 6 yn crynhoi canfyddiadau'r ymchwil sylfaenol, yn enwedig mewn perthynas â'r gwaith dechreuol o weithredu Rhaglen Esgyn.
- Mae Pennod 7 yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau.

## 2. Dull Methodolegol: Cam 1

Roedd cam cyntaf y gwerthusiad yn canolbwyntio ar gael eglurhad ar y model rhesymeg sy'n sail i Raglen Esgyn. I wneud hynny, aeth yr ymchwil ati i geisio nodi'r agweddau canlynol ar gynllun y Rhaglen:

- Y materion sy'n cael sylw gan Raglen Esgyn, a'r cyd-destun y mae'r Rhaglen ynddo;
- Y mewnbynnau, h.y. yr adnoddau (arian, amser, pobl) sy'n cael eu buddsoddi;
- Y gweithgareddau disgwyliedig y mae'n rhaid eu cyflawni i sicrhau deilliannau'r Rhaglen;
- Allbynnau cychwynnol disgwyliedig y polisi;
- Y deilliannau disgwyliedig (yn y tymor byr a'r tymor hir); ac
- Y rhagdybiaethau a wnaed mewn perthynas â sut y mae'r elfennau hyn yn cysylltu â'i gilydd i gynhyrchu deilliannau (gan gynnwys adnabod unrhyw risgiau a dibyniaethau).

### 2.1 Adolygu tystiolaeth

Dechreuodd y gwaith dadansoddi drwy adolygu'r cyd-destun polisi a strategol y mae Rhaglen Esgyn yn gweithredu ynddo, ynghyd ag adolygiad llenyddiaeth yn edrych ar effeithiolrwydd cynlluniau gweithredol yn y farchnad lafur. Nod yr adolygiad cefndir oedd deall yn well y cyd-destun y datblygwyd Esgyn ynddo, yn ogystal â'r graddau y mae model Rhaglen Esgyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth sy'n bodoli ac, felly, theori newid credadwy.

## 2.2 Ymgynghoriadau cwmpasu

Cynhaliwyd 25 o gyfweliadau lled-strwythuredig ym mis Awst 2015, a hynny wyneb-yn-wyneb a thros y ffôn. Roedd pump ohonynt â rhanddeiliaid allweddol yn Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am y cynllunio a'r gweithredu cychwynnol ar Raglen Esgyn, ac 20 gydag Uwch Froceriaid Esgyn a Rheolwyr Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Roedd yr ymgynghoriadau hyn yn bwydo i ddatblygiad y theori newid sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen wrth geisio cael darlun cychwynnol o weithredu model Esgyn ym mhob un o'r ardaloedd y cynhelir y Rhaglen ynddi a dod i ddeall peth ar y gwahaniaethau bychain yn y model o un ardal i'r llall. Cafodd y theori newid ar gyfer Esgyn, wedi'i ddangos gan fodel rhesymeg drafft, ei fireinio maes o law yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd gan grŵp llywio'r gwerthusiad.

## 3. Theori Newid a Model Rhesymeg

Mae theori newid yn ceisio disgrifio a dangos sut y disgwylir i newid a ddymunir ddigwydd mewn cyd-destun penodol, a pham. Mae'n nodi cyfres o amcanion sy'n gysylltiedig â newid penodol, ac wedyn yn mapio'r gweithgareddau, y rhagdybiaethau a'r prosesau achosol cysylltiedig a fyddai, mewn theori, yn arwain at gyflawni'r amcanion a nodwyd.

Mae model rhesymeg yn ddarlun graffigol o raglen ac mae'n ddefnyddiol ar gyfer disgrifio'n gryno'r prif elfennau sydd ynddi a'r cysylltiadau sy'n rhyngweithio ynddi. Mae'r elfennau allweddol fel arfer yn cynnwys mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, deilliannau ac effeithiau'r Rhaglen.[4]

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r model rhesymeg a'r theori newid wedi'u cyfuno yn un darlun, fel y'i cyflwynir yn Ffigwr 1,[5] a hwnnw'n disgrifio:

- Beth mae ymyriad Esgyn yn ei wneud.
- Pam fod ymyrryd yn angenrheidiol.
- Beth mae'n ceisio'i gyflawni.
- Sut, yn ddamcaniaethol, y bydd yr ymyriad yn arwain at gyflawni'r amcanion a ddymunir.
- Y rhagdybiaethau sylfaenol.

Mae'r crynodeb sydd ym mhob cam o'r model a'r rhagdybiaethau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen yn cael eu harchwilio ymhellach yn adrannau dilynol yr adroddiad. Rhoddir ffocws penodol ar y rhagdybiaethau oherwydd bydd profi eu cywirdeb yn y cyfnodau dilynol yn ganolbwynt allweddol i'r gwerthusiad.

---

[4] The Magenta Book, Guidance for Evaluation, Trysorlys ei Mawrhydi (2011)
[5] Sylwer: dylid argraffu Ffigwr 1 ar bapur A3 i sicrhau ei fod yn ddarllenadwy.

## 4. Sail Resymegol Model Esgyn

Mae'r bennod hon yn edrych ar y dystiolaeth dros sail resymegol ac amcan y Rhaglen. Mae'n ystyried y tirlun polisi ehangach sy'n gysylltiedig â Rhaglen Esgyn, y rhagdybiaethau damcaniaethol allweddol sy'n sail i'w dyluniad, ac i ba raddau y maent yn cydymffurfio â'r dystiolaeth a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth (gweler Atodiad A).

### *Datganiad sail resymegol*

Mae'r sail resymegol a ddangosir yn y gadwyn rhesymeg yn ceisio crynhoi'r dystiolaeth sy'n cyfiawnhau defnyddio Rhaglen Esgyn fel ymyriad polisi. Sef, yn gryno:

- Mynd i'r afael â thlodi yw un o flaenoriaethau pennaf Llywodraeth Cymru.
- Mae crynodiad uwch o aelwydydd heb waith mewn rhai cymunedau penodol yng Nghymru.
- Mae aelodau aelwydydd sydd heb waith am chwe mis neu fwy yn fwy tebygol o brofi tlodi ac amddifadedd difrifol a pharhaus, iechyd a lles gwael, a throsglwyddo risgiau ac anfanteision penodol rhwng cenedlaethau.
- Bydd helpu pobl i oresgyn y rhwystrau maent yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i gyflogaeth ac aros ynddo yn gallu eu hamddiffyn yn erbyn hyn.
- Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen i'r cymorth fod yn bersonol i amgylchiadau a galluoedd unigol, rhaid iddo fod yn eang ei gwmpas (mynd i'r afael â ffyrdd o fyw/sefyllfaoedd), ac eto dylid cael llwybrau i waith sy'n glir ac amlwg. Cyflawnir hyn orau drwy gael unigolyn penodol, sy'n gyfarwydd i'r cyfranogwyr, yn ymgysylltu â hwy yn gyson a pharhaus gan weithredu fel mentor iddynt.

*Amcan y rhaglen*

Wrth ddefnyddio dull theori newid i ymyriad, mae angen ystyried amcan a nod y Rhaglen. Dyma amcan Esgyn, fel y'i disgrifiwyd gan y model rhesymeg:

> *'Cyfrannu at gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi drwy dreialu cynnig 5,000 o gyfleoedd hyfforddiant neu gyflogaeth erbyn diwedd 2017 i bobl sy'n byw ar aelwydydd sydd heb waith yn yr hirdymor.'*

## 4.1 Sail resymegol

Trechu tlodi yng Nghymru yw un o flaenoriaethau pennaf Llywodraeth Cymru. Yn 2012, roedd mwy nag un aelwyd mewn pump (21.5 y cant) yng Nghymru oedd â rhywun o oedran gweithio ynddi yn aelwyd heb waith (o'i gymharu â 18.1 y cant ledled y Deyrnas Unedig). Roedd hyn yn cyfateb i fwy na 200,000 o aelwydydd ledled Cymru.[6] Yn y cyd-destun hwn, mae'r diffiniad o bobl heb waith yn cyfeirio at y rheiny sydd heb swydd, eisiau swydd, sydd wedi bod yn chwilio am waith yn y pedair wythnos diwethaf ac sydd ar gael i ddechrau gweithio yn y pythefnos nesaf. Mae hefyd yn cynnwys y boblogaeth sy'n economaidd anweithgar, sef pobl heb swydd nad ydynt wedi bod yn chwilio am waith yn y pedair wythnos diwethaf ac/neu nad ydynt ar gael i ddechrau gweithio yn y pythefnos nesaf. [7]

Mae aelwydydd heb waith wedi'u dosbarthu'n anwastad ledled Cymru. Yn ôl data 2012, mae bron i dri o bob 10 cartref ym Mlaenau Gwent heb waith, tra bod bron i chwarter yr aelwydydd heb waith mewn rhannau helaeth o weddill y Cymoedd (gweler Ffigwr 2). Yn lleol, roedd bron i ddau draean yr aelwydydd

---


[6] Llywodraeth Cymru, Ystadegau'r Farchnad Lafur ar gyfer Aelwydydd, 2012 – Bwletin Ystadegol, 4 Medi 2013.

[7] Barnes, H. et al. (2011) *Understanding the worklessness dynamics and characteristics of deprived areas* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/214564/rrep779.pdf

heb waith mewn rhai cymdogaethau yn ardaloedd Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf.[8]

Mae twf aelwydydd un oedolyn wedi cael cryn effaith ar nifer a chyfradd yr aelwydydd heb waith yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach. Mae rhan fwyaf y garfan hon yn cynnwys oedolion sengl heb blant; ond mae hefyd yn cynnwys oedolion sengl sydd â phlant. Er nad oes data ar gael sy'n benodol i Gymru, awgryma ystadegau'r Deyrnas Unedig bod o leiaf dau draean y plant mewn cartrefi heb waith yn byw gyda rhiant unigol.[9]

**Ffigwr 2: Canran yr aelwydydd heb waith yn ôl ardal Awdurdod Lleol**




*Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth - Aelwydydd yn ôl Statws Gweithgarwch Economaidd Cyfunol (Ionawr-Rhagfyr 2012)*

## 4.2 Effaith bod heb waith[10]

Mae'r pryder parhaus ynghylch bod heb waith yn deillio, yn rhannol, o ddeall bod diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn gysylltiedig ag ystod o

---

[8] Dadansoddi data Cyfrifiad 2011 gan y Tîm Cymunedau yn Gyntaf yn LlC gan ddefnyddio Cyfrifiad 2011 yn seiliedig ar gyfran yr aelwydydd lle nad oedd unrhyw oedolyn (dros 15 oed) mewn cyflogaeth yn y cartref yn ôl ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA).
[9] 'Families in the Labour Market', Arolwg o'r Llafurlu / Labour Force Survey; ONS (2014)
[10] Gweler hefyd Atodiad A.

ganlyniadau niweidiol. Gall diweithdra ac anweithgarwch economaidd tymor hir arwain at gynnydd sydyn mewn amddifadedd materol, dirywiad mewn lles meddyliol a chorfforol, dileu cefnogaeth gymdeithasol, ac allgáu cymdeithasol ehangach.

Awgryma ymchwil fod effeithiau tymor hir diweithdra ar les goddrychol a gwrthrychol yn negyddol. Gall cyfnodau maith o anweithgarwch, er enghraifft, gyfrannu at lefelau uwch o straen ac iselder, a hynny, yn ei dro, yn gallu lleihau'r tebygolrwydd o ddod o hyd i gyflogaeth ac aros ynddo.[11] Mae cyfnod hirach o ddiweithdra yn gysylltiedig â chynnydd sylweddol mewn camddefnyddio alcohol a dibyniaeth ar sylweddau, trais yn y cartref, gweithgarwch troseddol yn gyffredinol, ac euogfarnau. Daeth astudiaeth o Awstralia i'r casgliad fod profiad o ddiweithdra yn golygu risg rhwng 4.2 a 14 y cant o ddioddef y canlyniadau negyddol sylweddol hyn.[12] Mae diweithdra hefyd yn gysylltiedig â lefelau isel o hunaneffeithiolrwydd, a gall diffyg hynny arwain at berson di-waith yn plygu i dderbyn eu sefyllfa, gan goleddu'r syniad na fyddant byth yn cael swydd.

Un o heriau mwyaf diffyg gwaith yw tlodi ac allgáu cymdeithasol. Newidiadau mewn statws cyflogaeth neu enillion yw'r prif achosion dros symud i mewn i dlodi neu allan ohono.[13] Mae bod heb waith yn cynyddu'r siawns yn sylweddol o brofi amddifadedd materol. Mae hyn yn cynnwys tlodi tanwydd, methu â gwresogi neu oleuo cartref, neu fynd heb hanfodion megis digon o fwyd, llety digonol neu ddillad. I lawer sy'n byw mewn tlodi, mae hyn hefyd yn golygu byw heb fynediad i wasanaethau a gweithgareddau cymdeithasol, gan waethygu'r allgáu cymdeithasol. Mae diffyg cyflogaeth ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn fath o allgáu cymdeithasol, a gall diffyg gwaith am gyfnod estynedig gyfrannu at fwy o ynysu cymdeithasol a lleihad mewn cefnogaeth gymdeithasol.

---

[11] Crowther et al. (2000) 'Helping people with severe mental illness to obtain work: systematic review', BMJ http://www.bmj.com/content/322/7280/204

[12] Fergusson et al. (2014) 'Unemployment and psychosocial outcomes to age 30: A fixed-effects regression analysis' yn *Australian and New Zealand Journal of Psychiatry* Cyfrol 40: 8: tt. 735-742

[13] Pantazis (2006) Poverty and Social Exclusion in Britain: The Millennium Survey

Ceir ymchwil helaeth ar y berthynas rhwng diffyg gwaith rhieni a’r canlyniadau i’w plant, a hynny’n cynnwys eu datblygiad gwybyddol, cyrhaeddiad addysgol, a’r newid wrth dyfu’n oedolion. Canfu ymchwil yn defnyddio data o Astudiaeth Carfan y Mileniwm, er enghraifft, fod cysylltiad cryf iawn rhwng diffyg gwaith rhieni a chyrhaeddiad academaidd tlotach. Mae plant sy’n tyfu i fyny ar aelwydydd heb waith, er enghraifft, yn treulio 11 y cant yn fwy o amser allan o waith na phlant ar aelwydydd cyflogedig ar ôl gadael addysg llawn amser hyd at 23 oed.[14] Er hynny, mae trosglwyddo’r anfantais rhwng y cenedlaethau yn parhau yn destun anghytuno. Dengys ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree fod diffyg tystiolaeth o ‘ddiwylliant diffyg gwaith’ - sef trosglwyddo gwerthoedd, agweddau ac ymddygiad sy’n annog pobl i beidio â chael cyflogaeth a dibynnu ar les – ar aelwydydd heb waith.[15,16]

## 4.3 Rhwystrau at waith

Mae pobl heb waith fel rheol yn wynebu cyfuniad o rwystrau i weithio. Yng Nghymru, iechyd gwael yw’r un rhwystr pennaf i weithio a nodwyd amlaf o ran menywod a dynion. Iechyd ac anabledd yw’r rhwystrau pennaf i ddynion. I fenywod, mae’r rhwystrau yn fwy amrywiol, gan gynnwys cynnig gofal sylfaenol.[17] Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, mae nifer yr achosion o bobl heb waith yn sylweddol uwch ymhlith pobl sydd ag anableddau na’r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Eto i gyd, byddai cyfran sylweddol o bobl ddi-waith sydd â chyflyrau iechyd - sef ychydig dros 24 y cant - yn hoffi gweithio, gan awgrymu bod pobl anabl yn wynebu ystod ehangach o rwystrau, gan gynnwys gwahaniaethu, wrth chwilio am waith a chael swydd.[18]

Awgryma ymchwil fod pob rhwystr sy’n wynebu unigolyn yn golygu gostyngiad sylweddol yn y tebygolrwydd eu bod yn cael cyflogaeth, a hynny’n annibynnol ar effeithiau rhwystrau eraill. Yn Blackaby et al. (2003), dim ond pedwar y cant

---

[14] Schoon et al. (2012) Intergenerational transmission of worklessness: Evidence from the Millennium Cohort and the Longitudinal Study of Young People in England

[15] JRF (2012) http://www.jrf.org.uk/publications/cultures-of-worklessness

[16] https://www.jrf.org.uk/report/are-cultures-worklessness-passed-down-generations

[17] MacInnes et al. (2014) *Monitoring Poverty and Social Exclusion 2014*, Sefydliad Joseph Rowntree.

[18] Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth (2014), *Lefel Anabledd yn ôl Gweithgarwch Economaidd*, http://www.nomisweb.co.uk, aethpwyd iddo 27 Awst 2015

o unigolion heb unrhyw rwystrau oedd yn ddi-waith, o'i gymharu â 90 y cant o'r rhai oedd yn wynebu rhagor o rwystrau (sef anabledd, cymwysterau isel, bod dros 50 oed, bod yn aelod o grŵp ethnig lleiafrifol, bod heb bartner, a byw mewn ardal sydd â galw gwan am lafur).[19] Gall rhwystrau hefyd fod yn cydberthyn mewn ffyrdd cynnil ond arwyddocaol sy'n cynyddu'r pellter oddi wrth y farchnad lafur, megis diffyg trafnidiaeth ac anableddau sy'n cyfyngu ar symudedd.

### 4.4 Yr ymateb polisi ledled y Deyrnas Unedig

Mae gostwng nifer y bobl heb waith yn parhau i fod yn amcan polisi allweddol i lywodraethau olynol yng Nghymru ac, yn fwy cyffredinol, yn y Deyrnas Unedig. Mae wedi cynnwys nifer o fentrau ysgogi cadarnhaol sydd wedi ceisio lleihau'r nifer. Mae'r rhain wedi cynnwys mentrau yn seiliedig ar ardal, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru, Partneriaethau Cynhwysiad Cymdeithasol (*Social Inclusion Partnerships*) yn yr Alban, a Rhaglen y Fargen Newydd a'r Gronfa Adnewyddu Cymdogaethau (*Neighbourhood Renewal Fund*) yn Lloegr. Ers 2008, mae polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi symud ffocws o ysgogi cadarnhaol tuag at bolisïau ysgogi negyddol drwy gosbau a gostwng budd-daliadau. Mae hyn wedi cynnwys rhoi'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn lle'r Budd-dal Analluogrwydd (IB) a gostwng oedran y plentyn ieuengaf lle mae disgwyl i riant unigol wedyn fynd i chwilio am waith.

Yn 2011, lansiodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y Rhaglen Waith, sef ei phrif raglen i symud pobl o fudd-daliadau i waith, sef rhoi cymorth i bobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir neu sydd mewn perygl o fod felly. Mae'n orfodol ar amryw o hawlwyr budd-daliadau i gymryd rhan yn y Rhaglen Waith ac mae atgyfeiriadau wedi'u sbarduno yn dilyn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra (JSA, ESA neu Gredyd Cynhwysol) dros gyfnod penodol. Er enghraifft, mae pobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) yn cael eu hatgyfeirio i'r Rhaglen 9 mis ar ôl hawlio JSA am y tro cyntaf os ydynt rhwng 18 a 24 oed, ac ar ôl 12 mis o hawlio os ydynt yn 25 oed a throsodd.

---

[19] Blackaby et al. (2003) *Nodi Rhwystrau i Weithgarwch Economaidd yng Nghymru*, Adroddiad i'r Uned Ymchwil Economaidd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003http://www.learningobservatory.com/uploads/publications/1179.pdf

Mae'r Rhaglen Waith yn rhoi'r rhyddid i ddefnyddio dull gweithredu 'blwch du'[20] wrth gynnig gwasanaeth. Ar ôl cael eu hatgyfeirio, mae cyfranogwyr yn aros ar y Rhaglen Waith am hyd at ddwy flynedd. O ystyried ehangder y ddarpariaeth a allai fod ar gael i gyfranogwyr y Rhaglen Waith, penderfynodd Llywodraeth Cymru ganolbwyntio adnoddau Rhaglen Esgyn ar gyfranogwyr cyn iddynt gael eu hatgyfeirio i'r Rhaglen Waith, neu ar ôl iddynt ei gadael.

Er gwaethaf ymyriad o du'r Llywodraeth, mae diffyg gwaith yn dal i fod yn nodwedd amlwg yn y farchnad lafur. Felly, yr her o ran polisi yw cynllunio a gweithredu ymatebion sensitif yn lleol sy'n effeithiol wrth gefnogi aelodau aelwydydd heb waith yn y cymdogaethau difreintiedig hyn. Mae hyn yn golygu bod angen dealltwriaeth fanwl o nodweddion a dynameg bod heb waith, ac o'r ffactorau sy'n cyfrannu at ganlyniadau cadarnhaol.

## 4.5 Polisi Llywodraeth Cymru

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (TRAP) yn ceisio blaenoriaethu anghenion y rhai sydd yn y perygl mwyaf o dlodi ac allgáu, gan wneud hynny o dan y prif amcanion canlynol:

- Atal tlodi
- Helpu pobl mewn tlodi i wella eu sgiliau a gwella perthnasedd eu cymwysterau
- Lliniaru effaith tlodi

Yn ôl y Cynllun Gweithredu, mae'r risg o dlodi i blant mewn teuluoedd sydd heb waith yn dal yn uchel, ar 58 y cant, sydd gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd o 22 y cant yng Nghymru. Mae mynd i'r afael â diffyg gwaith yn cyd-fynd â Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru, a oedd yn 2011 wedi diffinio tri amcan strategol ar gyfer trechu tlodi plant. Yn 2015, yn dilyn ymgynghori, diwygiwyd y rhain ychydig ond maent yn parhau i fod yn berthnasol iawn i Raglen Esgyn.

[20] Nid yw'r Rhaglen yn pennu ymyriadau neu weithgareddau penodol y mae'n rhaid i bob darparwr eu cynnal.

1. Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw ar aelwydydd heb waith, gan fod plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith mewn perygl arbennig o fyw mewn tlodi.
2. Cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd incwm isel, er mwyn iddynt fedru cael cyflogaeth sy'n talu'n dda a medru datblygu yn y gwaith, gan fod tlodi mewn gwaith yn broblem gynyddol.
3. Lleihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau economaidd, iechyd ac addysg plant a theuluoedd trwy wella canlyniadau'r tlotaf. Mae atal tlodi'n hanfodol i'n gweledigaeth hirdymor ar gyfer cefnogi aelwydydd incwm isel.

O ran ymyriad polisi, Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen Llywodraeth Cymru yn y gymuned i fynd i'r afael â thlodi. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac fe'i sefydlwyd yn 2001. Roedd cam diweddaraf y Rhaglen (a ddechreuodd yn 2012) yn cynnwys ffocws ar weithredu mewn llai o ardaloedd sy'n fwy o ran maint. Mae'r Rhaglen bellach yn gweithredu mewn 52 Clwstwr sy'n cynnwys y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (10 y cant) (ar lefel LSOA[21] ac sy'n cyfateb i 25 y cant o gyfanswm y boblogaeth).[22] Caiff y Clystyrau eu rheoli gan 19 Corff Cyflawni Arweiniol (LDB). Mae tri amcan strategol i'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, sydd gyda'i gilydd yn cyfrannu at amcanion y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trech Tlodi:

1. Cymunedau sy'n Ffynnu – lleihau anghyfartaledd o ran incwm a chyfle yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan sicrhau bod pobl yn gallu cael at yr adnoddau y maent eu hangen i gynnal eu hunain a'u teuluoedd ac i wella eu cyfleoedd mewn bywyd.
2. Cymunedau sy'n Dysgu – hyrwyddo diwylliant o ddysgu yng nghymunedau Cymru lle anogir pawb, waeth beth fo eu hoed neu eu gallu, i gydnabod eu potensial eu hunain ac i gael y gefnogaeth i'w wireddu.
3. Cymunedau Iachach – gwella iechyd a lles pawb gyda'r newid hwnnw'n digwydd yn gyflymach po fwyaf yw lefel yr amddifadedd.

[21] Mae gan bob ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA) gyfartaledd o 1,500 o breswylwyr a 650 aelwyd.
[22] Ar sail y dystiolaeth sy'n deillio o Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2011.

A hithau'n rhaglen sy'n mynd i'r afael â thlodi ac sydd â ffocws cymunedol, rhan o'r sail resymegol dros CyG yw nad cynnal gweithgareddau yn unig y bydd hi, ond ei bod hefyd yn darparu llwyfan i weithredu rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru sy'n ceisio trechu tlodi, a bod yn fecanwaith cydlynu mewn cymunedau difreintiedig.

Mae 'Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi', a gyhoeddwyd yn 2013, yn cyflwyno cyfres o gamau gweithredu allweddol i'w hwyluso gan Lywodraeth Cymru gyda thargedau mesuradwy clir yn gysylltiedig ag ymhle y maent am wneud y gwahaniaeth mwyaf. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol: '*…[c]reu 5,000 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ar aelwydydd lle nad oes oedolyn mewn gwaith, gan ddechrau yn o leiaf chwech o'n hardaloedd Cymunedau yn Gyntaf'* gyda'r nod o gyflawni'r ymrwymiad hwn erbyn diwedd 2017. Datblygwyd y Rhaglen Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith (sef enw gwreiddiol Rhaglen Esgyn) fel yr ymyriad i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

## 4.6 Polisïau/gweithgareddau cyflenwol

Drwy dargedu'r gweithredu i ddigwydd o fewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, mae Rhaglen Esgyn wedi'i gosod o fewn daearyddiaeth ymyriadau eraill (yn ychwanegol at y gwasanaethau hynny a ddarperir gan y Clystyrau eu hunain) a dylai'r ymyriadau eraill hyn, sydd hefyd yn targedu, gyd-fynd â'r Rhaglen. Mae'r ymyriadau hyn yn cynnwys:

- Gwasanaethau Cyflogaeth mewn Canolfannau Plant Integredig (ESICC): Mae Rhaglen Esgyn yn adeiladu ar fodel ymyriad a gynigwyd yn y lle cyntaf mewn rhai Clystyrau CyG penodol (gyda phump ohonynt yn rhan o Esgyn) mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith (JCP), sef bod cynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith (Cynghorwyr Cyflogaeth Rhieni) wedi'u cynnwys yn rhan o dimau Clystyrau CyG ac yn cynnig gwasanaethau trwy Ganolfannau Plant Integredig yn ardaloedd y clystyrau. Mae'r Rhaglen hon bellach wedi ei hymgorffori yn y rhaglen Cymunedau am Waith.
- Twf Swyddi Cymru (JGW), wedi'i gefnogi gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Mae'r cynllun hwn yn cynnig cymorth ariannol i fusnesau bach a chanolig a sefydliadau eraill er mwyn helpu i dalu am gost cyfleoedd cyflogaeth o 6 mis i bobl ifanc ddi-waith (16-24 oed) er mwyn eu galluogi i gael profiad, ennill sgiliau newydd, a gwella eu rhagolygon cyflogaeth hirdymor. Mae 500 o lefydd Twf Swyddi Cymru wedi'u neilltuo'n benodol ar gyfer cyfranogwyr Esgyn, gan roi modd i Esgyn 'baratoi' yr unigolion hynny nad ydynt eto yn barod am swydd ac yn eu galluogi wedyn i elwa ar Raglen Twf Swyddi Cymru.
- Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, y fframwaith adfywio ar gyfer Cymru, a'i nod yw gwella economi ac ansawdd bywyd lleol yng nghanol trefi, cymunedau arfordirol ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (sydd hefyd ymhlith ardaloedd blaenoriaeth yr ymyriad).

- Cymunedau am Waith – mae'r Rhaglen hon yn ddiweddar wedi cael cefnogaeth yr ESF ac mae wedi'i chyd-noddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Bydd y Rhaglen yn cael ei chynnal mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac mae'n gweithredu fel gwasanaeth allgymorth cymunedol. Mae model y Rhaglen yn adeiladu ar y dysgu cynnar a wnaed o Esgyn, ac mae'n cael ei gweithredu gan Gynghorwyr Cyflogaeth (a gyflogir gan y Ganolfan Byd Gwaith ond wedi'u hintegreiddio i dimau CyG) a Mentoriaid Cyflogaeth (wedi'u lleoli yn nhimau CyG). Mae dau fath o fentoriaid: Mentoriaid Oedolion (i'r rhai 25 oed neu drosodd) a Mentoriaid Ieuenctid (ar gyfer oedolion ifanc o dan 25 oed). Bydd y staff yn nodi'r rhwystrau y mae unigolion yn eu hwynebu rhag cael gwaith, yn cytuno ar Gynllun Gweithredu, yn rhoi cymorth ac yn cynnig camau gweithredu a gweithgareddau i'w helpu i ddod o hyd i waith neu fynd i addysg amser llawn (a ystyrir yn gam tuag at waith). Gall unigolion wneud cais yn annibynnol i ymuno â'r Rhaglen hon, yn ogystal â chael eu hatgyfeirio gan gyrff statudol amrywiol a'r trydydd sector. Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol.

## 5. Cynllun Rhaglen Esgyn

Dechreuodd Rhaglen Esgyn ym mis Ionawr 2014 ac i ddechrau arni targedwyd saith ardal yng Nghlystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Ehangodd y Rhaglen wedyn i naw ardal, gyda thair o'r ardaloedd hyn yn gofyn am ehangu i gwmpasu Clwstwr cyfagos. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn gweithredu ar hyd 12 o Glystyrau mewn naw ardal gyflenwi.[23]

Mae'r Rhaglen yn rhannu cyfres o egwyddorion allweddol a chryfderau Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf:

- Atebion yn y gymuned
- Defnyddio gwybodaeth gymunedol
- Cefnogaeth yn y gymuned
- Gweithwyr allgymorth sy'n rhoi cefnogaeth ddwys
- Cynllunio camau gweithredu tuag at gyflogaeth[24]

### 5.1 Adnoddau'r Rhaglen

Mae Rhaglen Esgyn yn gweithredu gydag adnoddau cymharol fach. Sicrhawyd £2.5 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod cychwynnol y Rhaglen o 2013 i 2016 (cyn ymestyn y Rhaglen i fis Mawrth 2018). Roedd defnyddio Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf fel y cyfrwng cyflenwi yn seiliedig ar y dybiaeth bod seilwaith Clwstwr yn cynnig cryn dipyn o effeithiolrwydd a fyddai'n galluogi cyflenwi gwasanaethau gydag adnoddau cyfyngedig. Mae llawer o effeithiolrwydd y model hwn, fodd bynnag, yn dibynnu ar Raglen Esgyn yn gallu sefydlu cysylltiad â chymorth eraill, neu'n sicrhau gallu defnyddio'r cymorth hwnnw.

---

[23] Y rhain yw: Môn (Ynys Môn), Tredegar ac Ebwy Fawr (Blaenau Gwent), Basn Caerffili a Chwm Rhymni Uchaf (Caerffili), Dwyrain Caerdydd (Caerdydd), Gorllewin Taf (Rhondda Cynon Taf), Gogledd-orllewin Abertawe (Abertawe), Sir Gaerfyrddin (Sir Gaerfyrddin), Cwm Afan (Castell-nedd Port Talbot), a Dwyrain Sir y Fflint a Gorllewin Sir y Fflint (Sir y Fflint).

[24] Llywodraeth Cymru (2013), *Rhaglen Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith / Tackling Workless Households Programme* (heb ei gyhoeddi).

### *Nodi'r ardaloedd i weithredu ynddynt*

Mae cyfran y boblogaeth sy'n derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm yn uwch yng Nghlystyrau CyG (30 y cant) nag ydynt yn nodweddiadol trwy Gymru gyfan (12 y cant).[25] Gan ddefnyddio budd-daliadau fel procsi ar gyfer diweithdra, mae hyn yn golygu bod crynodiadau uwch o aelwydydd heb waith yng Nghlystyrau CyG.[26]

Nododd Llywodraeth Cymru Glystyrau posibl i fod yn rhan ac yna eu gwahodd i fod yn y Rhaglen. Roedd y meini prawf dewis terfynol yn cynnwys (i) i ba raddau yr oedd y Clystyrau wedi profi eu gallu i gyflawni Rhaglen bresennol Cymunedau yn Gyntaf, a (ii) yr angen i dreialu'r model mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol ar y rhagdybiaeth y byddai daearyddiaeth, poblogaeth a dwyseddau a seilwaith cyflogaeth yn dylanwadu ar effeithiolrwydd y Rhaglen.

Mae pob ardal a nodwyd i gyflenwi'r Rhaglen wedi penodi o leiaf dau aelod o staff[27] (Brocer/Mentor ac Uwch Frocer/Mentor) i weithredu Rhaglen Esgyn. Mae'r cwota staffio yn gymesur i raddau helaeth â'r adnoddau ariannol sydd ar gael, ac yn seiliedig ar y dybiaeth bod y lefel hon o adnoddau staffio yn ddigonol i gyflawni Rhaglen Esgyn, er bod risg parhad pe na byddai aelodau staff bellach ar gael.

### *Rheoli a llywodraethu'r Rhaglen*

Mae gweithredu'r Rhaglen wedi'i reoli gan ddau aelod o staff Llywodraeth Cymru, gyda chymorth gweinyddol ychwanegol ar y dechrau. Sefydlwyd Bwrdd[28] i'r Rhaglen hefyd, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, er mwyn rhoi gwybodaeth, cyngor a sicrwydd i'r tîm ac i gynorthwyo â'r canlynol:

- Materion strategol a thrawsbynciol a risgiau sy'n effeithio ar y Rhaglen;
- Effeithiolrwydd y cyfathrebu;
- Pa mor ddigonol a chadarn yw'r trefniadau llywodraethu;
- Cyflawni'r deilliannau a'r buddion; a

---

[25] Stats Cymru, *Dangosyddion Allweddol yn ôl Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf*, codwyd o Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (2012) https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Communities-First/KeyIndicators-by-CommunitiesFirstCluster

[26] Llywodraeth Cymru (2013), *Budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth fel procsi ar gyfer bod heb waith / Employment related benefits as a proxy for worklessness* (heb ei gyhoeddi).

[27] Cafodd trydydd brocer/mentor eu recriwtio ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Chaerdydd.

[28] Bwrdd Gweithredu Esgyn – Cylch Gorchwyl

- Datrys materion strategol a gweithredol o safbwynt strategol.

*Cyllid*

Roedd y gyllideb ar gyfer pob ardal sy'n cyflenwi Esgyn dros gyfnod cychwynnol y Rhaglen (2013-16) yn amrywio'n fawr o tua £190,000 i £390,000, gan adlewyrchu lefel y cyllid y gofynnwyd amdano gan bob Corff Cyflawni Arweiniol. Mae'r cyllid a'r adnoddau ehangach (yn ariannol ac yn gysylltiedig â phersonél/ymyriad) yn cynnig cryn dipyn o hyblygrwydd yn natur y cymorth sydd ar gael i gyfranogwyr i'w helpu i oresgyn rhwystrau at gyflogaeth. Mae'r dull hwn yn rhagdybio y bydd yr hyblygrwydd a gynigir yn galluogi gwahanol gyfranogwyr mewn sefyllfaoedd amrywiol i ymateb yn gadarnhaol ac i ymgysylltu'n frwd ag Esgyn.

*Creu cyfleoedd*

Mae creu cyfleoedd ar gyfer Esgyn yn dibynnu ar gyflogwyr cenedlaethol (dan arweiniad neu anogaeth LlC) a chyflogwyr a darparwyr hyfforddiant lleol yn cynnig cyfleoedd sydd o fewn cyrraedd ac yn addas ar gyfer y garfan darged. Dylai cymryd rhan yn y cyfleoedd hyn gynorthwyo i 'esgyn' a chodi cyfranogwyr y Rhaglen tuag at ac i mewn i'r farchnad lafur. Mae'r dull hwn yn rhagdybio bod gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant gyfleoedd sy'n addas ac o fewn cyrraedd y grŵp targed hwn. Mae hefyd yn rhagdybio parodrwydd ymhlith cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant i "ymrwymo" i'r Rhaglen hon.

*Rhagdybiaethau sy'n gysylltiedig ag adnoddau*


- Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf sy'n cynnig y llwyfan mwyaf priodol i gyflenwi Rhaglen Esgyn.
- Mae tua dau frocer ym mhob ardal gyflenwi yn darparu digon o adnoddau a pharhad i gyflwyno Rhaglen Esgyn.
- Mae naw o dimau *cymwys* wedi'u penodi ym mhob ardal gyflenwi.
- Mae ymyriadau o'r math hwn yn addas i'r rheiny sydd wedi bod heb waith ers dros chwe mis.
- Mae gan "randdeiliaid" eraill nodau/amcanion tebyg ac maent yn barod i gefnogi ac "ymrwymo" i'r broses drwy gynnig cyfleoedd sydd o fewn cyrraedd/sy'n addas i'r grwpiau targed.

- Bydd dwysedd y boblogaeth a’r gallu i gyrraedd cyfleoedd (h.y. pa mor agos yw cyflogwyr/darparwyr hyfforddiant, bodolaeth trafnidiaeth) yn dylanwadu ar effeithiolrwydd Esgyn.
- Mae hyblygrwydd y dull yn galluogi amrywiaeth o gyfranogwyr i ymateb i’r Rhaglen ac i ymgysylltu â hi.

## 5.2 Gweithgareddau

Mae model Esgyn yn ddull sydd â phum cam iddo, ac mae’n rhoi modd i gyfranogwyr symud ymlaen yn gyflym neu i elwa o gymorth dwysach ar hyd cyfnod hirach, os oes rhwystrau ac anghenion mwy sylweddol. Mae Ffigwr 3 yn dangos y prif gamau o ran atgyfeirio ac ymgysylltu, meithrin ymddiriedaeth, cynllunio’r gweithredu, a symud tuag at gyflogaeth ac yna i mewn i gyflogaeth gynaliadwy.

**Ffigwr 3: Y model gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer Rhaglen Esgyn[29]**




---

[29] Llywodraeth Cymru (2013), *Rhaglen Mynd i’r Afael ag Aelwydydd Heb Waith / Tackling Workless Households Programme* (heb ei gyhoeddi).

Er bod y gweithgareddau sy’n gysylltiedig â’r Rhaglen yn amrywio o glwstwr i glwstwr, anogwyd pob ardal i fapio’r cymorth a’r cyfleoedd cysylltiedig sydd ar gael i gyfranogwyr. Mae’r cyfleoedd a ystyrir yn briodol i’w cofnodi fel deilliannau’r rhaglen yn cynnwys:[30]

- Hyfforddiant sgiliau sylfaenol/hanfodol: hyfforddiant sy’n aml mewn ystafell ddosbarth.
- Hyfforddiant galwedigaethol, yn ddelfrydol drwy gael cyflogwyr yn rhan er mwyn datblygu’r cynnwys a chynnal y cyrsiau/rhaglenni hyfforddi.
- Lleoliad gwaith neu brofiad gwaith am bythefnos ar y lleiaf.
- Paratoi ar gyfer cyflogaeth lawn amser sy’n para o leiaf pythefnos (e.e. drwy blas ar waith neu dreialon gwaith, gwaith a ganiateir neu wirfoddoli sy’n gysylltiedig â deilliannau cyflogaeth).
- Cyflogaeth: o leiaf 16 awr yr wythnos.

### *Adnabod cyfranogwyr sy’n gymwys*

Oherwydd yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, mae’r Rhaglen yn dibynnu’n drwm ar atgyfeiriadau fel llwybr i gyfranogwyr ymgysylltu â hi. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned wedi’u cynnal gan y Clwstwr, derbyn atgyfeiriadau gan gynghorwyr yn y Ganolfan Byd Gwaith leol ac/neu gan asiantaethau eraill sydd â phwyslais cryf ar allgymorth/ymgysylltu â’r gymuned. Mae hyn yn rhagdybio y gall timau Esgyn ymgysylltu’n effeithiol â’r prif asiantaethau atgyfeirio, yn enwedig y Clwstwr CyG lleol a swyddfeydd lleol y Ganolfan Byd Gwaith.

Penderfynir ar ddechrau eu hymgysylltiad a yw cyfranogwr yn gymwys ai peidio. Er mai’r Ganolfan Byd Gwaith sydd â’r wybodaeth am aelwyd yr unigolyn sy’n ofynnol ar gyfer asesu cymhwysedd yn uniongyrchol, mae’n annhebygol y bydd gan asiantau atgyfeirio eraill lefel y manylder gofynnol i wneud yr asesiad hwn. Felly, pan fo atgyfeiriadau yn dod o ffynonellau eraill, mae Esgyn yn dibynnu ar hunanddatganiad y cyfranogwr eu bod yn gymwys i’r Rhaglen.

---

[30] Llywodraeth Cymru (2013), *Diffiniadau Cyfle Esgyn / Lift Opportunity Definitions* (heb ei gyhoeddi)

*Ymgysylltu a chynllunio camau gweithredu*

Mae Esgyn yn gynllun gwirfoddol ac mae'r grŵp cleientiaid y mae'n eu targedu yn anoddach eu cyrraedd/cynorthwyo. Felly, mae'r model yn rhagdybio bod cyfranogwyr cymwys eisiau gweithio neu symud tuag at waith, a bod y broceriaid yn gallu sicrhau ymgysylltiad gwirfoddol y cyfranogwyr. Mae'r model hefyd yn rhagdybio bod y cymunedau yn ystyried Clystyrau CyG yn sefydliadau annibynnol y gellir ymddiried ynddynt, a'u bod ar wahân i wasanaethau niferus y sector cyhoeddus (megis y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Adran Gwaith a Phensiynau). Oherwydd bod Clystyrau CyG wedi'u sefydlu o fewn cymuned, ac wedi'u harwain gan y gymuned honno, cynyddu y mae'r tebygolrwydd y bydd yr ymgysylltu yn digwydd. Canolbwynt model Esgyn yw datblygu cynllun gweithredu (a elwir yn aml yn gynllun datblygu personol) er mwyn nodi cyfres o nodau a chamau mesuradwy. Ar ôl i'r cyfranogwr ymgysylltu â thîm Esgyn a bod lefel resymol o ymddiriedaeth wedi'i sefydlu, mae'r cyfranogwr yn dilyn y cynllun hwnnw fel rhan o gynllun strwythuredig i symud tuag at ac i mewn i gyflogaeth. Mae'r broses o gynllunio'r gweithredu yn ceisio nodi'r rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu a dod o hyd i atebion priodol. Bydd yr amcanion a nodwyd yn y cynllun gweithredu yn rhoi gwybodaeth i'r broceriaid am y math o gyfleoedd a fyddai'n fwyaf addas i'r unigolyn. Rhagdybir bod broceriaid yn gallu canfod cyfleoedd sy'n berthnasol a hygyrch a'u cyfateb i gyfranogwyr. Fodd bynnag, mae sicrhau cyfuniad amrywiol o gyfleoedd sy'n codi'n genedlaethol ac i'w cael yn lleol yn hanfodol i lwyddiant y dull hwn.

*Integreiddio â rhaglenni eraill*

Mae unigolion heb waith (yn enwedig ar ôl 6 mis neu fwy) fel arfer yn wynebu nifer o rwystrau sy'n cyfyngu ar eu hymgysylltiad â chyflogaeth neu eu symudiad tuag at gyflogaeth (gweler hefyd Atodiad A). Mae'r anhawster i gyrraedd grwpiau targed Esgyn yn amlygu pwysigrwydd integreiddio effeithiol â sefydliadau allweddol (gan gynnwys Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf) sy'n cynnig cymorth neu'n darparu llwybrau atgyfeirio ychwanegol.

Mae ardaloedd Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn elwa o nifer o ymyriadau sydd wedi'u targedu ac sydd â chanlyniadau tebyg, yn ogystal â'r gwahanol gynlluniau a gyflwynir gan y timau Cymunedau sy'n Ffynnu ym mhob Clwstwr

(gweler hefyd tt. 16-17). Mae cydredeg Esgyn â'r Clystyrau yn rhagdybio na fydd fawr o orgyffwrdd, dyblygu neu gystadleuaeth ag ymyriadau eraill, os o gwbl.

Mae'r Rhaglen yn ceisio cadw cysylltiad â'r cyfranogwyr am hyd at flwyddyn ar ôl iddynt ddechrau cymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddiant ac/neu gyflogaeth. O ystyried natur wirfoddol yr ymgysylltu a'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â'r grŵp targed, mae'r model yn rhagdybio y gall broceriaid ymgysylltu'n llwyddiannus â chyfranogwyr yn y tymor hir, gan gynnwys ar ôl iddynt lwyddo yn y nod a ddymunir.

***Rhagdybiaethau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau***

- Gall broceriaid ymgysylltu gydag aelwydydd targed, ac asesu'n gywir y rhwystrau at hyfforddiant a chyflogaeth.
- Mae cysylltiadau effeithiol yn bodoli ar gyfer atgyfeiriadau rhwng cynrychiolwyr y Ganolfan Byd Gwaith (e.e. cynghorwyr rhieni) a thimau Esgyn.
- Mae broceriaid yn medru adnabod a chyfateb cyfleoedd lleol priodol sy'n mynd i'r afael yn effeithiol ag anghenion y cyfranogwyr.
- Caiff y Clwstwr ei ystyried yn gorff annibynnol yr ymddiriedir ynddo, a bod cysylltiad â'r Clwstwr yn cynorthwyo broceriaid wrth ennyn diddordeb cyfranogwyr.
- Mae broceriaid yn mynd ati'n gywir i gasglu a diweddaru gwybodaeth am gyfranogwyr, eu teuluoedd a'r gweithgareddau a gyflawnwyd.
- Gall broceriaid feithrin/cynnal perthynas gydag amrywiaeth o gleientiaid (eu llwyth achosion).
- Mae Esgyn yn cyd-fynd yn effeithiol ag ymyriadau eraill yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf gydag ychydig neu ddim dyblygu/cystadleuaeth.
- Mae broceriaid yn cael eu hintegreiddio â thimau'r Clwstwr ac mae hyn yn gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth.

## 5.3 Allbynnau

Targed cyffredinol y Rhaglen wrth ei lansio oedd *'cynnig 5,000 o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl sy'n byw ar aelwydydd heb waith erbyn diwedd y flwyddyn galendr 2017'*. Mewn rhai deunyddiau yn ymwneud â'r Rhaglen, y targed yw *'creu 5,000 o gyfleoedd i bobl yn byw ar aelwydydd heb waith'*. Mae'r targed hwn, o'i ddehongli yn ddim ond cynnig cyfle neu greu cyfle, yn allbwn i weithgareddau'r Rhaglen. Pan ddehonglir y targed fel cefnogi cyfranogwyr mewn 5,000 o gyfleoedd (fel y'i disgrifir mewn rhai deunyddiau mwy diweddar sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen), dylid ei ystyried yn ganlyniad uniongyrchol i greu'r cyfle hwnnw. Er bod y derminoleg mewn rhai deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen yn cynnig ei hun i'r dehongliad cyntaf, mae'r targed, mewn gwirionedd, yn ymwneud â'r ail ddiffiniad ac felly wedi cael ei ystyried yn ganlyniad/deilliant uniongyrchol yn y model rhesymeg.

Mae'r cyfleoedd (boed hynny'n cynnig cyfle, yn creu cyfle neu'n bresenoldeb cyfranogwyr ar gyfle) yn dwyn pwysiad cyfartal (waeth pa un o'r pum categori y maent ynddynt, gweler tt. 22-23). Yn hyn o beth, mae rhagdybiaeth ymhlyg fod pob cyfle yn y Rhaglen o werth cyfartal. Mewn gwirionedd, efallai fod y rhagdybiaeth hon yn gwrthdaro â rhai safbwyntiau ar y Rhaglen. Er bod y Rhaglen yn rhoi pwysiad mawr i'r pellter tuag at gyflogaeth, y nod yn y pen draw yw cael cyflogaeth gynaliadwy i gyfranogwyr ar ôl iddynt dderbyn cymorth.

***Rhagdybiaethau eraill sy'n gysylltiedig ag allbwn***

- Mae gan adrannau Llywodraeth Cymru a sefydliadau rhanddeiliaid eraill gyfleoedd sy'n addas ar gyfer y garfan darged.
- Mae cyfranogwyr ym mhob Clwstwr o'r farn bod y cyfleoedd yn addas a bod digon o ddiddordeb ynddynt.
- Mae gwerth ac effaith posibl y cyfleoedd a grëwyd yn gyfartal.

## 5.4 Canlyniadau

Er mwyn sicrhau'r deilliant o 5,000 o gyfleoedd, mae'n hanfodol bod digon o gyfranogwyr cymwys yn ymwneud yn weithredol â'r Rhaglen. Mae hefyd yn annhebygol bod marchnad berffaith o gyflenwad a galw yn bodoli ar gyfer Rhaglen Esgyn, felly efallai na fydd rhai cyfleoedd yn ddeniadol neu ni fyddant yn cyd-fynd ag amcanion llwyth achosion brocer. Felly, bydd angen creu mwy o gyfleoedd i gyrraedd y targed o ddarparu 5,000.

Gyda phwyslais ar dargedu pobl heb waith yn y tymor hir, mae'r Rhaglen am gynnig cymorth dwys, parhaus i ddiwallu eu hanghenion cymhleth. Dyma'r rhagdybiaethau a wnaed yn hyn o beth: (i) efallai y bydd cyfranogwyr angen nifer o gyfleoedd i'w symud tuag at gyflogaeth gynaliadwy; (ii) bydd mynychu cyfleoedd sy'n addas i'r anghenion a'r amcanion a nodwyd yn cael effaith cadarnhaol ar gyfranogwyr, gan gynnwys gwella eu hunaneffeithiolrwydd a'u lles; a (iii) gall teithiau tuag at gyflogaeth newid cyfeiriad yn sgil cyswllt/profiad y cyfranogwr.

Gan fod ei deilliant targed cyffredinol yn ymwneud â phresenoldeb mewn cyfle (yn hytrach na sicrhau cyflogaeth), mae'r Rhaglen yn cydnabod pellter cyfranogwyr o'r farchnad lafur. Bydd asesu effeithiolrwydd yr ymyriad, felly, yn golygu edrych y tu hwnt i ddeilliannau caled cyflogaeth neu addysg prif ffrwd, a mesur y pellter a deithiwyd tuag at, neu i, gyflogaeth a'r graddau y caiff hyn ei briodoli i'r gefnogaeth a gafwyd. Dylai'r data monitro sy'n cael ei gasglu gan yr ardaloedd cyflenwi (y “rheolwyr data” penodedig ar gyfer y Rhaglen) roi modd asesu'r hunaneffeithiolrwydd, lles a'r ffactorau amddiffynnol eraill a nodwyd yn yr adolygiad ar y sylfaen dystiolaeth.

Er nad yw nifer y cyfranogwyr mewn cyflogaeth yn gysylltiedig â dangosydd deilliant penodol, mae disgwyliad y bydd y cyfraddau symud yn debygol o fod yn debyg i Raglenni eraill o natur debyg.[31]

[31] Awgryma tystiolaeth gan Raglen 2007-2013 yr ESF gyfradd symud o rhwng 1 o bob 10 (10%) ac 1 o bob 6 (17%) o'r cyfranogwyr yn symud ac yn aros mewn cyflogaeth lawn amser o ran y rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur.

I'r rhai sy'n mynd i gyflogaeth neu hyfforddiant prif ffrwd, y nod yw cynnal y cysylltiad am o leiaf chwe mis ar ôl cyflogaeth i sicrhau bod y lleoliad yn llwyddiannus ac yn cael ei gadw. Mae broceriaid hefyd yn gyfrifol am gysylltu 12 mis ar ôl i'r cyfranogwr ddechrau yn eu cyfle cyntaf. Felly, rhagdybiaeth gynhenid arall yw bod staff Esgyn yn gallu cadw'r cysylltiad hwn â chleientiaid.

### *Effeithiau amnewid/dadleoli*

Gallai effeithiau amnewid (*substitution*) a dadleoli (*displacement*) godi trwy gynnig cyfleoedd a allai fod yn bodoli eisoes i grŵp targed penodol er mwyn iddynt "elwa" o'r Rhaglen. Mae'n bosibl y byddai'r cyfleoedd hyn fel arall wedi mynd i rywun sydd heb waith ond y tu allan i'r ddaearyddiaeth targed. Nodir y risgiau hyn yn achos busnes y Rhaglen, ond fel rhan o bolisi blaengar i ailddosbarthu cyfoeth i ardaloedd mwy difreintiedig, mae modd dadlau y gellid ystyried amnewid yn ddeilliant dymunol. '*Mae cyfnewid person sy'n ddi-waith yn y tymor byr neu rywun o aelwyd sydd ag eraill yn ennill cyflog am rywun o aelwyd heb waith yn un o'r deilliannau y mae Esgyn yn ceisio ei gyflawni.*'[32]

Yn seiliedig ar yr adolygiad tystiolaeth (gweler Atodiad A), mae risg uwch o dlodi mewn teulu pan fo'r aelwyd gyfan (yn hytrach nag un unigolyn) heb waith. Pan fo'r farchnad lafur mewn cyfnod o ehangu, mae amnewid yn llai o broblem. Mewn cyfnod o grebachu, fodd bynnag, gall fod yn ffactor bwysicach wrth i'r gystadleuaeth ddwysáu am yr hyn a allai fod yn nifer llai a llai o gyfleoedd gwaith. Yn yr un modd, mae'r ymyriad yn debygol o arwain at effeithiau dadleoli. Bydd cymorth wedi'i dargedu, naill ai drwy hyfforddiant neu drwy brofiad gwaith, yn gwneud y cyfranogwyr yn fwy cystadleuol yn y farchnad lafur, a hynny'n debygol o fod ar draul eraill sy'n chwilio ac yn cystadlu am waith ond nad ydynt o bosibl yn gymwys ar gyfer y Rhaglen. Felly, er bod effeithiau amnewid a dadleoli yn bodoli, nid ydynt o bosibl yn ddigon arwyddocaol i danseilio'r effaith ychwanegol (yn gymdeithasol ac economaidd) a fydd yn deillio o'r gefnogaeth.

Mae'r effeithiau gorlif fydd yn deillio o'r cymorth yn rhagdybiaeth arall cysylltiedig. Bydd yn bwysig profi'r rhagdybiaeth hon drwy edrych ar

---

[32] Achos Busnes Esgyn Atrodiad 1 (Drafft), (2013), Llywodraeth Cymru

newidiadau ymysg aelodau eraill ar yr aelwyd neu bobl nad ydynt yn gyfranogwyr Rhaglen Esgyn (megis, er enghraifft, dyheadau cyflogaeth yn cynyddu ymysg y gymuned ehangach o ganlyniad i gyfranogwyr llwyddiannus Esgyn).

***Rhagdybiaethau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau***

- Mae cyfranogwyr fel arfer yn mynd i'r afael â nifer o gyfleoedd.
- Mae manteisio ar gyfle yn cael effaith cadarnhaol ar gyfranogwyr, gan gynnwys gwella eu hunaneffeithiolrwydd.
- Nid yw effeithiau amnewid a dadleoli yn ddigon arwyddocaol i danseilio'r effaith ychwanegol sy'n deillio o'r gefnogaeth.
- Bydd effeithiau gorlif yn codi, yn enwedig ar aelwydydd y cyfranogwyr a gefnogir.
- Bydd y systemau monitro a ddefnyddir ym mhob ardal lle cynigir y Rhaglen yn rhoi modd asesu priodoli deilliannau i Raglen Esgyn.
- Mae modd tystiolaethu/mesur y cynnydd tuag at waith.
- Mae broceriaid yn gallu olrhain cyfranogwyr am chwe mis ar ôl iddynt gael gwaith.

## 6. Rhoi'r Rhaglen ar Waith

I ddechrau arni, gwahoddwyd wyth (ac wedyn naw) Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf i gymryd rhan yn Rhaglen Esgyn, ac roedd pob un ohonynt wedi cyflwyno cais am gyllid.

### 6.1 Canllawiau

Roedd yr arweiniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn gryno ac wedi'i ddisgrifio yn 'gyffyrddiad ysgafn', gan adlewyrchu awydd i glystyrau ganfod atebion wedi'u teilwra yn lleol i broblemau diweithdra yn eu hardal. Roedd y canllawiau yn cynnwys manylebau ar gyfer cyflogi dau fentor, darparu adnoddau ar gyfer costau cefn swyddfa a'r Gronfa Rhwystrau. Rhoddwyd templedi disgrifiad swydd ar gyfer broceriaid hefyd, ac er bod rhai Clystyrau wedi copïo'r templedi hyn, dewisodd eraill eu dyluniad eu hunain.

Roedd y rhan fwyaf o ardaloedd sy'n cynnal y Rhaglen yn croesawu'r hyblygrwydd a'r rhyddid a roddir i'r ardaloedd lleol i siapio'r model fel y tybient sydd orau. Cawsant y canllawiau yn ddefnyddiol gan werthfawrogi'r hyblygrwydd i addasu'r model i weddu i ofynion lleol (roedd darparu adnoddau ychwanegol i gyflogi swydd weinyddol yn un enghraifft o hyn) ac i gyd-fynd â'r ddarpariaeth/isadeiledd sy'n bodoli eisoes: *"roedden nhw'n awyddus iawn i gyd-fynd â'r hyn rydyn ni eisoes yn ei wneud".* Er hynny, soniodd rhai am yr angen am fwy o arweiniad, yn enwedig o ran monitro a nodi pwy sy'n gymwys i'r Rhaglen. Roedd rhai pryderon bod y gofynion wedi cael eu bwydo'n araf deg i'r Rhaglen wrth iddi fynd rhagddi, gan gynyddu'r galw ar y timau gweithredu, megis gorfod cael gwybodaeth ychwanegol gan gyfranogwyr.

Yn gyffredinol, ystyrir bod cefnogaeth Llywodraeth Cymru drwy gydol y gwaith o roi'r Rhaglen ar waith a'i gweithredu wedi bod yn dda hyd yma, gyda pherthynas agos wedi'i ffurfio â thîm Esgyn y Llywodraeth.

> *"Mae'r llinellau cyfathrebu bob amser wedi bod yn agored; maent yn wirioneddol gefnogol wrth ymateb i'n hymholiadau. Rydyn ni'n gallu jest codi'r ffôn ac fel arfer yn cael ymateb cyflym iawn."*
> *"Maen nhw bob amser ar gael i siarad ac yn gallu rhoi atebion i gwestiynau bob amser. Maent yn dod yn ôl yn gyflym wrth ymateb;*

*maen nhw'n dda am wrando ar y staff ar lawr gwlad pan fyddwn yn gwneud awgrymiadau."*

## 6.2 Recriwtio a strwythur staff

Dechreuodd y recriwtio ar staff Esgyn ym mhob ardal y Rhaglen ym mis Ionawr 2014. Roedd yr holl Froceriaid/Mentoriaid wedi'u penodi erbyn mis Awst 2014. Roedd pob ardal gyflenwi yn fras wedi dilyn y model o gael dau frocer (er y penodwyd tri brocer ym Mlaenau Gwent, Caerdydd a Chaerffili). Gwnaed ceisiadau am gymorth gweinyddol ychwanegol i gofnodi data monitro mewn rhai ardaloedd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae timau Esgyn wedi'u cyflogi gan y Corff Cyflawni Arweiniol a'r Rheolwr Clwstwr yw eu rheolwr linell.[33] Fel arfer, mae gan dimau Esgyn gysylltiadau agos â'r timau Cymunedau sy'n Ffynnu yn eu Clwstwr CyG perthnasol ond mae'r berthynas hon yn amrywio o un ardal weithredu i'r llall.

## 6.3 Adnabod cyfranogwyr ac ennyn eu diddordeb

### *Y Ganolfan Byd Gwaith fel llwybr atgyfeirio*

Er bod broceriaid Esgyn yn gwneud rhywfaint o waith allgymorth ac ymgysylltu, maent yn fwy tebygol o ddibynnu ar sefydliadau eraill i adnabod ac atgyfeirio cyfranogwyr sy'n briodol i'r Rhaglen. Mae meithrin perthynas agos â'r Ganolfan Byd Gwaith (JCP) yn cael ei ystyried yn elfen hanfodol i ymgysylltu â'r grwpiau hyn, gan y gall Hyfforddwyr Gwaith JCP gynnig mecanwaith atgyfeirio effeithiol, yn enwedig o ran y bobl hynny sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA).[34] Mae'r broses atgyfeirio gyda JCP yn golygu rhoi manylion cleientiaid cymwys neu atgyfeirio hawlwyr yn uniongyrchol at y broceriaid. Yn yr ardaloedd hynny lle nad oedd y JCP (neu Hyfforddwyr Gwaith JCP) yn ymgysylltu'n rhwydd â thîm lleol Esgyn, daeth tîm Esgyn Llywodraeth Cymru i'r adwy i helpu i gryfhau'r berthynas.

---

[33] Er enghraifft, mae tîm Caerdydd wedi'i gyflogi a'i reoli gan Gymdeithas Tai leol.
[34] Mae hawlwyr ESA yn rhan o Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith, sef rhai y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn ystyried fydd yn gallu gweithio ar ryw adeg yn y dyfodol, ac sydd â'r gallu i gymryd camau yn syth tuag at symud i waith (gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith).

Mae ‘natur’ yr atgyfeiriad o’r Ganolfan Byd Gwaith i Esgyn wedi achosi rhywfaint o ddryswch, oherwydd mewn rhai achosion roedd cleientiaid Esgyn dan yr argraff eu bod wedi cael eu mandadu i’r Rhaglen (er ei fod yn atgyfeiriad gwirfoddol gan y JCP). Mewn achosion eraill, roedd Hyfforddwyr Gwaith wedi atgyfeirio cleientiaid sy’n byw y tu allan i’r ardaloedd targed yn y gobaith y byddai ffiniau ‘hyblyg’ y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn digwydd hefyd ar Raglen Esgyn.[35] Roedd y diffyg hyblygrwydd o ran cymhwysedd daearyddol ar Raglen Esgyn wedi bod yn rhywfaint o siom i ddarpar gleientiaid a staff Esgyn.

*Llwybrau eraill i ymgysylltu*

Defnyddia timau Esgyn ystod o lwybrau eraill i ymgysylltu â chyfranogwyr (yn bennaf mewn partneriaeth â Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf), gan gynnwys:

- Manteisio ar gynlluniau sydd eisoes yn bodoli i ymgysylltu â’r gymuned (digwyddiadau/diwrnodau agored, diwrnodau cymunedol, diwrnodau hwyl i’r teulu) wedi’u cynnal drwy Gymunedau yn Gyntaf
- Prosiect Cyflogaeth dan Gymorth Cymunedau yn Gyntaf
- Atgyfeiriadau drwy feddygfeydd lleol
- Clybiau Swyddi
- Galw heibio (yn enwedig pan fo Tîm Broceriaid Esgyn yn gweithio o leoliad amlwg sydd â nifer fawr o bobl yn cerdded heibio)
- Trwy Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Gwasanaethau Prawf a’r Heddlu
- Grwpiau Gwaith Ieuenctid
- Llyfrgelloedd
- Y cyfryngau cymdeithasol

*Darparu cyfleoedd*

Ar ôl lansio’r Rhaglen, gwahoddodd y Prif Weinidog weinidogion eraill i nodi cyfleoedd posibl yn yr adrannau yn eu portffolio. Cyfrifwyd nifer y cyfleoedd y mae pob adran i’w targedu naill ai drwy ddull pennu “o’r brig i lawr” gan uwch

---

[35] Gall cyfran o fuddiolwyr ar gyfer gweithgareddau Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ddod o’r tu allan i’r Clwstwr.

aelodau pob adran neu drwy ddull cysylltu â rheolwyr adrannau i drafod ei ymarferoldeb. Ymgysylltodd Llywodraeth Cymru hefyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i'w hannog i ystyried neilltuo cyfleoedd i gyfranogwyr ac ardaloedd sy'n gymwys i Esgyn.

Mae darparu cyfleoedd dan ysgogiad Llywodraeth Cymru wedi cael ei groesawu gan y rhan fwyaf o'r ardaloedd lle gweithredir y Rhaglen. Amcangyfrifa'r broceriaid eu bod yn cyfrif am rhwng 10 a 60 y cant o'r holl gyfleoedd a gynigir yn lleol. Fodd bynnag, yn ôl data olrhain cyfranogwr, cyfran is sydd wedi cael ei ddarparu drwy Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Ymddengys fod y canlynol yn dylanwadu ar yr amrywiant yn nifer y cyfleoedd a gynhyrchir yn genedlaethol:


- I ba raddau y mae cyfleoedd sy'n codi ledled y wlad o fewn cyrraedd yr ardal lle cyflenwir y Rhaglen.
- Cryfder y berthynas â sefydliad(au) a allai gynnig cyfleoedd i gyfranogwyr.
- I ba raddau y mae'r ardal lle cynigir y Rhaglen wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau cyfleoedd gan gyflogwyr lleol.

O ran cael gafael ar gyfleoedd yn lleol, roedd ambell dîm Esgyn wedi mapio cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant posib yn lleol. Mewn achosion eraill, defnyddiai'r timau wybodaeth ac/neu allbynnau presennol y Clystyrau, yn enwedig gan y timau Cymunedau sy'n Ffynnu neu'n Dysgu, er mwyn adnabod cyfleoedd posibl yn gysylltiedig â chyflogaeth neu hyfforddiant yn lleol.

## 6.3 Cynnydd cynnar Esgyn

Mae pob ardal y Rhaglen yn cyflwyno gwybodaeth ynghylch nifer y cyfleoedd y mae cyfranogwyr Esgyn wedi manteisio arnynt i Lywodraeth Cymru bob mis. Mae Ffigwr 4 yn dangos cynnydd Esgyn hyd yma yn erbyn y manteisio disgwyliedig ar gyfleoedd hyd at fis Hydref 2015.

**Ffigwr 4: Nifer rhagamcanol y cyfleoedd i'w mynychu gan gyfranogwyr yn erbyn nifer y cyfleoedd a fynychwyd sydd wedi'u cofnodi**





*Ffynhonnell: Data monitro prosiect Esgyn*[36]

Gwelir amrywiadau sylweddol wrth ddadansoddi cyfleoedd yn ôl math ac yn ôl ardal gyflenwi[37] (gweler Ffigwr 5). Mae'n amlwg ei bod yn well gan gyfranogwyr rai math o gyfleoedd hefyd, a hyfforddiant galwedigaethol yw'r mwyaf poblogaidd.

---

[36] Rhoddwyd y cyfleoedd rhagamcanol am fisoedd olynol yn unig hyd fis Ebrill 2015, ac yna fe'u rhagamcanwyd yn chwarterol (fel y dangosir gan y llinell doredig).
[37] Rhagwelwyd hyn gan fod y disgwyliadau o ran y cyflenwi a'r darparu wedi bod yn sail i ddewis y Clystyrau i gymryd rhan yn y lle cyntaf.

**Ffigwr 5: Cyfanswm nifer y cyfleoedd y manteiswyd arnynt hyd yn hyn yn ôl ardal (Awst 2015)**




*Ffynhonnell: data monitro prosiect Esgyn*

### 6.4 Gwersi yn codi o'r darparu gwasanaeth

Roedd 16 o'r 20 a gyfwelwyd (10 Rheolwr Clwstwr a 10 Uwch Fentor/Brocer) yn gadarnhaol am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn, gan nodi bod hyblygrwydd y dull gweithredu a dwysedd a hirhoedledd y gefnogaeth yn rhai o brif elfennau'r Rhaglen. Pan ofynnwyd iddynt beth sy'n gweithio'n dda, cyfeiriodd mwyafrif yr ymatebwyr (n=13) at y cymorth mentora un-i-un parhaus y gallent eu cynnig i'w cleientiaid. Cyfeiriodd rhai (n=8) hefyd at ansawdd y cyfleoedd a gynigir, yn enwedig y lleoliadau gwaith gyda chyflogwyr ag enw da (gan eu bod yn cynnig cyfle cydnabyddedig i gael gyrfa). Roedd eraill yn canmol hyblygrwydd y Rhaglen, ac ystod y cyfleoedd sydd ar gael, wedi'u hategu gan y Gronfa Rhwystrau.[38] Roedd llawer yn disgwyl i ragor o gyfranogwyr ymuno wrth i ymwybyddiaeth am Raglen Esgyn a'i chleientiaid llwyddiannus gynyddu.

Ystyrir bod rhan y cyflogwyr yn allweddol i gyflawni'r deilliannau cyflogaeth, yn enwedig yn ardaloedd y Rhaglen sydd wedi bod yn fwy llwyddiannus wrth

[38] Mae'r Gronfa Rhwystrau yn cynnig adnodd hyblyg i fentoriaid i'w cynorthwyo (pan nad oes unrhyw adnodd arall ar gael) i oresgyn unrhyw rwystrau sylweddol y mae unigolyn yn eu hwynebu i gael gwaith neu symud tuag at gyflogaeth.

sicrhau'r deilliannau hyn. Nododd y broceriaid hefyd bwysigrwydd gallu cydlynu â darparwyr lleoliadau gwaith i gyd-drafod telerau ac amodau lleoliad (e.e. oriau gwaith, yn enwedig os oes dibynyddion gan y cyfranogwr).

*"Cawsom un person yr oedd ei fudd-daliadau wedi'u sancsiynu am saith mis; doedd yr asiantaethau ddim yn ei helpu o gwbl. Doedd ganddo ddim ynni yn y cartref, dim bwyd. Fe wnaethom ei helpu i gael taliadau caledi, doedd ganddo ddim cymorth o gwbl ac roedd yn llwgu i farwolaeth. Roedd wedyn mewn gwaith o fewn tri mis. Ni oedd wedi cael y cymorth hwnnw iddo ac yntau wedi bod yn mynd rownd a rownd mewn cylchoedd."*

***Heriau wrth weithredu Esgyn***

Y brif her wrth gyflwyno gwasanaethau yw'r rhyngweithio rhwng Esgyn ac asiantaethau eraill sy'n cynnig gwasanaethau/cefnogaeth, yn arbennig y berthynas â thimau craidd Clystyrau. Er bod llawer o broblemau cychwynnol wedi'u datrys, mae nifer o ardaloedd y Rhaglen yn credu y byddai Esgyn yn elwa o berthynas gryfach â'r Clystyrau craidd.

Mewn tair ardal, teimlai broceriaid nad oeddent yn elwa o nifer y cyfleoedd a gynhyrchwyd gan y Llywodraeth ag yr oeddent wedi'i obeithio, tra bod eraill yn teimlo nad oedd digon o gyfleoedd lleoliadau a hyfforddiant o fewn cyrraedd eu llwyth achosion. Tynnwyd sylw hefyd at y gofynion gweinyddol sy'n gysylltiedig â chynnal y Rhaglen, ac mewn rhai ardaloedd pryderai cyfweleion bod glynu at y gofynion uwch yn tynnu staff oddi ar ddarparu gwasanaeth.

Yn olaf, cyfeiriodd nifer hefyd at yr heriau a grëwyd gan y Rhaglen Waith, gydag un cyfwelai yn disgrifio'r Rhaglen honno fel '*melltith ar fy enaid*'. Prif achos y rhwystredigaeth yw cyfranogwyr yn cael eu mandadu ar y Rhaglen Waith ar yr adeg eu bod yn derbyn cymorth trwy Esgyn. Mae yna hefyd enghreifftiau ynysig lle gallai brocer yn ddiarwybod fod yn cefnogi unigolyn sydd ar y Rhaglen Waith. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, mae'n bosibl fod y Rhaglen Waith yn cynyddu rhestr cyfranogwyr posibl Esgyn, gan y gall ei chleientiaid aflwyddiannus[39] gymryd rhan wedyn yn Esgyn ar ôl gadael y Rhaglen Waith.

---

[39] 'Dychweledigion' y Rhaglen Waith: y rhai sydd wedi cwblhau dwy flynedd ar y Rhaglen Waith heb gael gwaith.

## 7. Crynodeb o'r Canfyddiadau[40]

Mae Rhaglen Esgyn yn cynnig allgymorth fel elfen ganolog i'r model. Mae cyfranogwyr cymwys yn ymuno â'r Rhaglen yn wirfoddol a'r broceriaid yn asesu eu dyheadau i gael swydd, hyfforddiant neu addysg ac yn eu helpu i ddatblygu cynlluniau datblygu personol er mwyn rhoi strwythur iddynt gyrraedd cyflogaeth. Mae broceriaid yn canfod cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth addas yn lleol, tra bod adrannau Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus ac eraill yn nodi cyfleoedd addas yn genedlaethol i gyfranogwyr gymryd rhan ynddynt.

Mae hyblygrwydd yn elfen bwysig arall o'r ffordd y mae'r Rhaglen yn gweithio. Mae pob ardal sy'n cynnig Rhaglen Esgyn wedi cael yr hyblygrwydd i'w rhoi ar waith mewn ffordd sy'n adlewyrchu amgylchiadau lleol. Mae'r model hefyd yn elwa o gael amrywiaeth o gefnogaeth, yn enwedig o ran ehangder y cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a gynigir, ac ychwanegir ati drwy fedru defnyddio'r Gronfa Rhwystrau er mwyn ymateb i unrhyw broblemau penodol sy'n codi.

Bwriad model Esgyn yw mynd i'r afael â'r amryw o effeithiau andwyol sy'n deillio o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd, gan gynnwys llai o incwm, risg uwch o dlodi ac amddifadedd materol. Mae hefyd yn adeiladu ar y syniad fod pecyn cymysg o gefnogaeth a chymorth, wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn, yn hollbwysig ar gyfer llwyddiant mewn rhaglenni o'r math hwn.

### 7.1 Targedu Esgyn yng nghlystyrau Cymunedau yn Gyntaf

Mae targedu darpariaeth yng Nghlystyrau CyG yn ymwneud â'r berthynas gref a adroddwyd rhwng aelwydydd heb waith a'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth (sydd fel arfer yn uwch yng Nghlystyrau CyG). Yn ogystal, mae gweithredu'r Rhaglen drwy Glystyrau CyG yn cynnig cryn dipyn o effeithlonrwydd gan fod yno seilwaith cymunedol defnyddiol i adnabod ac ymgysylltu â grwpiau targed. Mae cydredeg â chlystyrau hefyd yn cynnig mynediad i amrywiaeth o weithgareddau cydategol, sy'n ehangu'r hyn y gellir ei gynnig i gyfranogwyr a hwythau'n debygol o fod â nifer o rwystrau cymhleth

[40] Adran wedi'i gyhoeddi ar wahân yn y ddogfen Crynodeb (ISBN 978-1-4734-5137-7)

sy'n cyfyngu ar eu gallu i symud tuag at neu i gyflogaeth. Mae'r dull yn dibynnu'n drwm ar ryngweithio effeithiol rhwng Rhaglen Esgyn, timau'r Clystyrau ac eraill sy'n darparu gwasanaethau. Ymddengys mai cysylltiadau gwael rhwng gwasanaethau, a gwasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio'n wael, yw'r risgiau pennaf i gyflawni Rhaglen Esgyn yn llwyddiannus.

Mae cyflwyno Cymunedau am Waith yn ardaloedd y Clystyrau yn cynnig cyfle pellach ar gyfer integreiddio effeithiol (o'i weithredu'n llwyddiannus) neu ar gyfer cystadleuaeth (os yw'r ardal y cyflenwir y Rhaglen ynddi yn dioddef o ryngweithio aneffeithiol). Mae defnyddio system brysbennu (*triage system*) i neilltuo trigolion i'r cymorth mwyaf priodol ar y cysylltiad cyntaf â hwy yn adlewyrchu cydweithio cadarnhaol ymhlith darparwyr. Er bod hyn yn ymddangos yn ffordd hynod effeithiol o drin y cysylltiad cyntaf â thrigolion, nid yw'n bosibl oni bai bod cytundeb ar y cyd rhwng darparwyr gwasanaethau ynghylch priodoli deilliannau ar draws rhaglenni neu wasanaethau.

Roedd y dyfarniad i roi cyllid Esgyn i'r Clystyrau yn seiliedig ar nifer o ffactorau. I rai Clystyrau, mae'r cyllid yn rhoi modd rhoi model Esgyn ar brawf mewn sefyllfaoedd demograffig gwahanol. Er bod ffactorau amrywiol yn debygol o ddylanwadu, mae ymchwil wedi nodi bod perfformiad yn gysylltiedig â chryfder y berthynas ag eraill sy'n darparu cymorth yn ogystal ag â chyflogwyr a darparwyr hyfforddiant a all gynnig cyfleoedd i'r grwpiau hyn.

## 7.2 Rôl y Brocer/Mentor

Mae'r model yn rhoi cyfrifoldeb trwm ar rôl y Brocer/Mentor ym mhob ardal y cynigir y Rhaglen ynddi. Mae meithrin a chynnal perthynas gref â'r grŵp targed yn dibynnu arnynt. Mae eu rôl yn gofyn am y gallu i feithrin elfen o ymddiriedaeth gyda chyfranogwyr, i nodi neu sylwi ar anghenion cymhleth ac i ymateb i'r anghenion hyn. Maent hefyd yn meithrin perthynas â'r seilwaith cymorth, er mwyn sicrhau bod y gwaith broceru cymorth yn briodol i anghenion/amcanion y cyfranogwr. Er eu bod wedi llwyddo i ymateb i'r her hon hyd yn hyn, mae'r cyfyngiadau ar adnoddau staffio yn risg i barhad y gefnogaeth ym mhob ardal petai unrhyw newid ymhlith staff.

## 7.3 Ymgysylltu yn wirfoddol

Mae Rhaglen Esgyn yn dibynnu ar ymgysylltiad gwirfoddol, a thrwy hynny mae'n rhoi pwyslais mawr ar y rhagdybiaeth bod pobl eisiau gweithio. Mae hefyd yn rhagdybio bod y cyfleoedd sydd ar gael i gyfranogwyr yn cyd-fynd â'u diddordebau a'u hanghenion, a bod cymryd rhan yn y cyfleoedd hyn yn eu cynorthwyo i gael gwaith cynaliadwy. Mewn rhai ardaloedd mae tystiolaeth o ddiffyg cyfatebiaeth rhwng cyflenwad y cyfleoedd sydd ar gael a natur y cyfleoedd y mae cyfranogwyr yn gofyn amdano. Mae'n aneglur i ba raddau y mae'r diffyg cyfatebiaeth hwn yn bodoli, felly byddai ymchwil pellach yn rhoi cipolwg defnyddiol i batrymau'r galw gan gyfranogwyr.

Er gwaethaf rhywfaint o dystiolaeth bod diffyg cyfatebiaeth mewn cyfleoedd, mae'r rhaglen yn perfformio'n dda, gan ragori ar y targed o ran cyfleoedd cyffredinol ac yn sicrhau cyfraddau symud i gyflogaeth sy'n uwch na'r disgwyl. Wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, bydd yn ddiddorol monitro'r cyfraddau symud i gyflogaeth gan fod y llwyddiannau cyntaf o bosibl yn adlewyrchu'r unigolion hynny sydd yn fwy cymwys i gymryd rhan ac i elwa o Esgyn. Fodd bynnag, mae'r cymorth hirdymor a gynigir i unigolion yn debygol o gynnal y gyfradd symud a welwyd hyd yn hyn ac mae'n bosibl y bydd y rhai "anoddach eu cyrraedd/eu cynorthwyo" yn ymgysylltu fwyfwy â'r Rhaglen o ystyried sut y mae ei phroffil yn tyfu ym mhob ardal y mae Esgyn ar gael ynddi.

## 7.4 Effeithiau gorlif

Mae targedu aelwydydd heb waith yn hytrach nag unigolion yn tybio y bydd effeithiau gorlif yn datblygu i'r teulu. Er bod hyn yn debygol, mae'r cynnydd ar aelwydydd heb waith wedi digwydd yn bennaf o ganlyniad i newidiadau yn natur pwy sy'n byw ar yr aelwydydd hyn, ac aelwydydd rhiant sengl yw proffil mwyaf cyffredin aelwyd heb waith.[41] Yn yr amgylchiadau hyn, cyfyngedig fydd effeithiau gorlif o fewn y cartref ond mae'n bosibl y ceir effeithiau gorlif ehangach (i grwpiau cyfoedion a gweddill y gymuned).

---

[41] Teuluoedd yn y Farchnad Lafur / Families in the Labour Market, Arolwg o'r Llafurlu / Labour Force Survey; ONS (2014)

## 7.5 Monitro

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cael diweddariad misol ar nifer y cyfleoedd y manteiswyd arnynt, ynghyd â datganiad chwarterol yn manylu ar nodweddion y cyfranogwyr a'r cyfleoedd a gynigir. Mae rôl "rheolwr data" yn rhan o waith timau Esgyn, ar ran eu Cyrff Cyflawni Arweiniol, a hynny'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gasglu a storio'r holl ddata am fuddiolwyr sy'n ymwneud â gweithredu'r Rhaglen. Mae pob tîm wedi llunio eu systemau a'u ffurflenni eu hunain i gasglu'r data perthnasol am bob cyfranogwr oherwydd yr arweiniad prin a gafwyd ynghylch casglu'r wybodaeth hon. O'r herwydd, mae asesu pa mor gynhwysfawr a chywir yw'r systemau monitro ym mhob ardal yn heriol. Mae diffyg cysondeb wrth gofnodi data yn creu risgiau wrth farnu pa mor effeithiol yw'r ymyriad.

Mae bod ar aelwyd heb waith yn statws deinamig, ac mae angen ei fonitro'n barhaus gan mai dyma'r prif faen prawf i fod yn gymwys ar gyfer y Rhaglen, er y penderfynir ar y dechrau a yw cyfranogwr yn gymwys ai peidio. Mae awdit ar y systemau casglu data wedi dechrau yn ddiweddar i archwilio'r ffyrdd y mae pob tîm yn cofnodi gwybodaeth sy'n ymwneud â chymhwysedd cyfranogwr, y gweithgarwch a wnaed, a'r deilliannau. Os yw'r casglu data yn annigonol neu'n anghywir, gallai fod yn anodd pennu a yw cyfranogwr yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y Rhaglen ai peidio. Bydd casglu data cadarn hefyd o gymorth wrth roi cyfrif am y deilliannau a gyflawnwyd ac wrth farnu effeithiolrwydd y Rhaglen.

## Cyfeiriadau


Barnes, H. et al. (2011) *Understanding the worklessness dynamics and characteristics of deprived areas* [ar-lein], ar gael: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/214564/rrep779.pdf

Bertoud (2003), yn Blackaby et al. *Nodi Rhwystrau i Weithgarwch Economaidd yng Nghymru*, Prifysgol Abertawe [ar-lein], ar gael: http://www.learningobservatory.com/uploads/publications/1177.pdf

Crowther et al. (2000) *Helping people with severe mental illness to obtain work: systematic review* [ar-lein], ar gael: BMJ http://www.bmj.com/content/322/7280/204

Ferguson et al. (2014) Unemployment and psychosocial outcomes to age 30: A fixed-effects regression analysis yn *Australian and New Zealand Journal of Psychiatry* Cyfrol 40: 8: tt. 735-742

Trysorlys ei Mawrhydi (2011) *The Magenta Book: Guidance for Evaluation* [ar-lein], ar gael: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220542/magenta_book_combined.pdf

Sefydliad Joseph Rowntree (2012) Are Cultures of Worklessness Passed down the Generations? http://www.jrf.org.uk/publications/cultures-of-worklessness [aethpwyd iddo 2il Medi 2015]

MacInnes et al. (2014) *Monitoring Poverty and Social Exclusion 2014,* Sefydliad Joseph Rowntree [ar-lein], ar gael: https://www.jrf.org.uk/report/monitoring-poverty-and-social-exclusion-2014

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) *Teuluoedd yn y Farchnad Lafur / Families in the Labour Market* [ar-lein], ar gael: http://www.ons.gov.uk/ons/rel/lmac/families-in-the-labour-market/2014/rpt---families-in-the-labour-market.html

Pantazis (2006) *Poverty and Social Exclusion in Britain: The Millennium Survey* [ar-lein], ar gael (crynodeb gweithredol): http://www.poverty.ac.uk/sites/default/files/pse-esrc-bid-summary.pdf

Schoon et al. (2012) *Intergenerational transmission of worklessness: Evidence from the Millennium Cohort and the Longitudinal Study of Young People in England* [ar-lein], ar gael: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/183328/DFE-RR234.pdf

Llywodraeth Cymru (2013), *Ystadegau'r Farchnad Lafur ar gyfer Aelwydydd* [ar-lein], ar gael: https://www.gov.uk/government/statistics/labour-market-statistics-for-households-in-wales-2013

Llywodraeth Cymru (2013), *Diffiniadau Cyfle Esgyn / Lift Opportunity Definitions* (heb ei gyhoeddi)

Llywodraeth Cymru (2013) *Rhaglen Mynd i'r Afael ag Aelwydydd Heb Waith - Briff / Tackling Workless Households Programme - Brief* (heb ei gyhoeddi)